# Y Fynwent Newydd, Llanuwchllyn

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yw'r Awdurdod Claddu a'r Cyngor Cymuned sydd yn berchen ar y fynwent.

<u>Trefniadau cyn claddu:</u>

1. Rhaid rhoi rhybudd o gladdedigaeth (yn cynnwys claddu llwch) i Swyddog y Fynwent o leiaf dri diwrnod cyn y Gladdedigaeth, gyda'r Rhybudd Claddu ac unrhyw ffurflen berthnasol arall. Ni chaniateir **gwasgaru** llwch o fewn y fynwent.

2. Ni chaniateir claddu cyn 10.00 o'r gloch y bore nac ar ôl 3.00 o'r gloch y prynhawn yn yr Haf. (2.00 o'r gloch yn y Gaeaf). Ni cheir claddu ar y Sul nac ar adeg gwyliau statudol.

3. Rhaid talu'r holl ffioedd priodol i Swyddog y Fynwent (neu'r Ymgymerwr angladdau) gyda'r Rhybudd Claddu (neu gyda chais i osod cofeb) yn unol â ffioedd cyfredol y Cyngor. Fe gedwir hawl gan y Cyngor i adolygu'r rheolau a'r ffioedd fel y bo'r angen.

4. Mae'n arfer da i roi rhybudd i Bennaeth Ysgol O M Edwards o amser y claddu fel y gellir gwneud trefniant priodol ar gyfer y disgyblion. (01678 540 242)

<u>Plotiau a beddfeini:</u>

1. Ni chaniateir prynu hawl claddu cyfyngedig ond pan fo angen i'w ddefnyddio ar y pryd, ac ni chaniateir agor bedd oni bai fod ei angen o fewn tri diwrnod.

2. Os gwnaethpwyd taliad yn y gorffennol yn nodi safle penodol i fedd, cofier mai PRYDLESU am 75 mlynedd a wnaethpwyd, nid *prynu* darn o dir.

3. **Ni chaniateir gosod unrhyw gofeb heb yn gyntaf dderbyn caniatâd ysgrifenedig y Cyngor / Swyddog y Fynwent.**

4. Mae cyfrifoldeb am gofeb yn disgyn ar y sawl sydd a'r hawl i gladdu yno neu ei gynrychiolwyr.

5. **Perchnogion y cofebion sydd â'r cyfrifoldeb i'w cynnal a'u cadw mewn cyflwr da.**
   5.1 Pan fo angen atgyweirio cofeb rhaid rhoi blaen rybudd i Swyddog y Fynwent gan sicrhau gwasanaethau person cymwys a phrofiadol i ymgymryd â'r gwaith.
   5.2 Hysbysir perchnogion (os ydynt yn wybyddus) pan fo angen atgyweirio cofebion, ac oni atgyweirir hwy o fewn yr amser penodedig, gall y Cyngor weithredu i wneud y gofeb yn ddiogel (yr hawl wedi ei roi dan Gyfarwyddyd Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977).
   5.2 Gall y Cyngor weithredu mewn modd uniongyrchol ynghylch unrhyw gofeb y mae'n credu sydd yn creu risg iechyd a diogelwch o arwyddocâd. Golyga hyn gweithredu heb roi rhybudd ffurfiol ymlaen llaw i'r teuluoedd.

6. **Cedwir y Fynwent fel mynwent lawnt ac <u>NI chaniateir palu tir bedd na phlannu arno unrhyw blanhigyn na chreu border neu unrhyw ddiben cyffelyb</u>.**

7. **<u>Ni chaniateir nodweddion</u> ar y tir o flaen carreg neu gofeb ac eithrio eu bod ar droed neu blinth o faint a gwedd wedi ei gymeradwyo ymlaen llaw gan Swyddog y Fynwent**.

8. Ni chaniateir i'r cyhoedd ddefnyddio chwynladdwr o fewn ffiniau'r fynwent.

9. Caniateir gosod torch neu flodeudorch (o ddeunydd sidan, nid blastig) ar feddau rhwng mis Tachwedd a dechrau Mawrth.

10. Ar ddechrau a diwedd y tymor tyfu bydd gwirfoddolwyr o'r Cyngor yn taclusoo'r fynwent gan gynnwys gwaredu unrhyw flodau / dorchau wedi gwywo.

11. Gwaherddir cŵn o'r mynwentydd, ac eithrio cŵn tywys.

<u>Swyddog y Fynwent</u> sydd yn cyflawni'r holl ddyletswyddau gweinyddol ac yn gofalu am y cofnodion statudol.
Mrs Bethan Edwards, Perthi, Cae Gwalia, Llanuwchllyn. (01678 540 601)